EISTEDDFOD GARNDOLBENMAEN A'R CYLCH

Cynhaliwyd Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch yn Neuadd y Pentref, Garndolbenmaen ddydd Sadwrn 28 Ionawr. Cafwyd dau gyfarfod llewyrchus a nifer dda o gystadleuwyr. Braf oedd cael cefnogaeth cystadleuwyr lleol gan gynnwys Ysgol Garndolbenmaen yn ogystal â rhai o'r tu allan i'r ardal.

Y beirniaid oedd: Cerdd a Cherdd Dant – Nia Evans, Talwrn, Ynys Môn; Adrodd/Llefaru, Llên a Barddoniaeth – Dewi Pws, Nefyn; Arlunio – Eirian, Pwlldefaid. Y cyfeilydd oedd Tudur P. Jones, Tywyn, Meirionnydd. Yr arweinyddion oedd Nesta Jones, Ann Pierce Jones a Bethan Dobson.

Swyddogion y pwyllgor yw: Llywydd – Gwen Owen; Is-lywydd – Nerys Ll. Thomas; Ysgrifennydd – Esyllt Williams; Is-ysgrifennydd – Bethan Dobson; Trysorydd – Richard Parry; Is-drysorydd – Carolyn Jones.

Llywydd yr Eisteddfod eleni oedd Carol Ann Williams, Aberdâr. Mae Carol yn enedigol o'r Garn, ac yn un o'r cymeriadau a welir yn y murlun ar gefn y neuadd. Ar ôl dilyn cwrs astudiaethau plentynod, aeth i weithio mewn meithrinfeydd yn ardal Caerdydd. Erbyn hyn, mae Carol a'i gwr yn rhedeg busnes cynllunio ceginau yn Casnewydd. Pleser oedd ei chroesawu ynghyd â'i mab, Lewis, a oedd wrth ei fodd yn ei eisteddfod Garn gyntaf.

Braf hefyd oedd cael parti canu o Ysgol Garn yn cystadlu, dan hyfforddiant Mrs. Gwenan Roberts, a diolch iddi am ei gwaith.

Enillwyd y wobr arbennig o £25 am yr adroddiad gorau yng nghyfarfod y prynhawn gan Gwawr Thomas o Chwilog. Enillwyd y wobr arbennig o £25 yn rhoddedig gan Gôr Meibion Dwyfor am y datganiad gorau yn yr adran gerdd yng nghyfarfod y prynhawn gan Leisa Lloyd-Edwards. Enillwyd y wobr arbennig o £25 yn rhoddedig gan O. Gerallt Jones ac Alun Llwyd am y datganiad gorau yn adran cerdd dant y prynhawn er cof am eu rhieni, Vera a D. G. Jones (Selyf) gan Cadi Midwood, Nefyn.

Yn ôl yr arfer cynhaliwyd seremoni Tlws yr Ifanc yn y cyfarfod hwyr. Dyluniwyd y tlws gan Deio Collwyn Williams o Rhydyclafdy, a diolch iddo yntau am ei waith cain. Cafwyd enillydd lleol i'r tlws, sef Megan Thomas o Gricieth sy'n fyfyriwr yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Pwllheli. Roedd 24 wedi ymgeisio a derbyniodd Megan ganmoliaeth arbennig gan y beirniad am safon uchel ei gwaith. Roedd Tlws yr Ifanc a Thocyn Llyfr yn rhoddedig gan Mr E. Griffiths a'r diweddar Mrs. G Griffiths, Ynys Wen, Cwmystradllyn a Chwmni Peirianneg Sifil Gelli er cof am Tom Richards, Wern, Llanfrothen. Diolchir iddynt ac i bawb a gyfrannodd wobrau ac a gefnogodd yr Eisteddfod mewn unrhyw ffordd.

Cafwyd clo arbennig i'r Eisteddfod wrth i Gôr Eifionydd a Lleisiau'r Mignedd gystadlu. Llongyfarchiadau i Leisiau'r Mignedd am gipio'r wobr gyntaf, a diolch yn fawr i'r ddau gor am eu cefnogaeth i'r Eisteddfod.

Canlyniadau Eisteddfod Garndolbenmaen 2023

Cerddoriaeth

Unawd Meithrin a Derbyn: 1. Gwawr Thomas, Chwilog; 2. Eila Wyn, Penygroes, 3. Nansi Gwen, Golan

Blwyddyn 1 - 2: 1. Elsie Matulla, Chwilog; 2. Annes Euros, Chwilog

Blwyddyn 3 - 4: 1. Miriam Thomas, Chwilog; 2. Nansi Pugh, Y Ffôr 3. Cadi Jones, Golan

Blwyddyn 5 - 6: 1. Eiry Glain, Golan; 2. Efan Thomas, Chwiog

Blwyddyn 7 – 11: 1. Leisa Lloyd Edwards, Groeslon; 2. Cadi Midwood, Nefyn

Deuawd dan 16 oed: 1. Cadi ac Ifan Midwood, Nefyn

Can Werin dan 16 oed: 1. Miriam Thomas, Chwilog; 2. Nansi Pugh, Y Ffôr

Unawd Piano dan 12 oed: 1. Hywyn Euros, Chwilog; 2. Gethin, Llangybi; 3. Annes Euros, Chwilog

Parti Unsain dan 12 oed: Parti Lisa, Ysgol Garndolbenmaen

Unawd Offeryn Cerdd dan 16 oed: 1. Lea Roberts, Pwllheli ; 2. Leisa Lloyd-Edwards, Groeslon; 3. Efan Thomas, Chwilog a Begw Williams, Garndolbenmaen

****

Unawd dan 25:

Unawd o Sioe Gerdd: 1. Catrin Parry, Pwllheli

Cân Werin dros 16:

Unawd Gymraeg o waith Cyfansoddwr Cymreig: 1. Treflyn Jones, Porthmadog ; 2. Catrin Parry, Pwllheli

Her-unawd : 1. Treflyn Jones, Porthmadog ; 2. Catrin Parry, Pwllheli

Canu Emyn dros 50 oed:

Côr Meibion, Merched neu Gymysg: 1. Lleisiau'r Mignedd; 2. Côr Eifionydd

Deuawd dros 16 oed:

Cerdd Dant

Unawd dan 12: 1. Miriam Thomas, Chwilog, 2. Efan Thomas, Chwilog, a Nansi Pugh, Y Ffôr 3. Eiry Glain, Golan ac Annes Euros, Chwilog

Unawd 12 – 16: 1. Cadi Midwood, Nefyn

Adrodd / Llefaru

Unawd Meithrin a Derbyn: 1. Gwawr Thomas, Chwilog; 2. Nansi Gwen, Golan

Blwyddyn 1 - 2: 1. Gwen Eluned Harris, Penryndeudraeth; 2. Annes Euros, Chwilog

Blwyddyn 3 - 4: 1. Miriam Thomas, Chwilog; 2. Cadi Jones, Golan

Blwyddyn 5 - 6: 1. Efan Thomas, Chwilog; 2. Hywyn Euros, Chwilog; 3. Gwenith Hughes, Chwilog

Blwyddyn 7 – 11: 1. Beca Dwyryd, Porthmadog; 2. Cadi Midwood, Nefyn; 3. Ifan Midwood, Nefyn

Parti Llefaru:

****

Perfformio Darn Digrif Agored: 1. Erin Dwyfor Roberts, Garndolbenmaen; 2. Rhys Jones, Corwen; 3. Hywyn Euros, Chwilog

16 – 25 oed; 1. Erin Dwyfor Roberts, Garndolbenmaen

Prif Adroddiad: 1. Rhys Jones, Corwen; 2. Bethan Lloyd, Pant Glas

Llenyddiaeth

Meithrin a Derbyn:

Blwyddyn 1 – 2: 1. Annes Euros, Chwilog

Blwyddyn 3 – 4

Blwyddyn 5 – 6 : 1. Hywyn Euros, Chwilog

Blwyddyn 7 – 11: 1. Cadi Midwood, Nefyn; 2. Ifan Midwood, Nefyn.

Engyn:1. Meirion Jones, Llanfairpwll; 2. Alan Iwi, Didcot a Simon Chandler, Maenceinion

Telyneg:1. Gwilym Hughes, Llanfairpwll; 2. Judith Morris, Penryncoch; 3. . Judith Morris, Penryncoch

Llinell Goll: 1. Margaret Jones, Bae Colwyn; 2. Megan Richards, Aberaeron; 3. Meira Jones, Efailnewydd.

Dan 25 oed 'Tlws yr Ifanc': 1. Megan Elisabeth Thomas, Cricieth; 2. Ela Owen Jones; 3. Fflur Williams (y 3 yn fyfyrwyr Coleg Meirion Dwyfor)

Arlunio

Meithrin a Dan 5: 1. Leia Roberts, Ysgol Garndolbenmaen; 2. Caleb Rhys, Ysgol Beddgelert; 3. Catrin Lewis, Ysgol Beddgelert

Blwyddyn 1 – 2: 1. Annes Euros, Llangybi ; 2. Gwen Eluned Harris, Penryndeudraeth ; 3. Nel Lloyd, Ysgol Garndolbenaen

Blwyddyn 3 – 4: 1. James Whalley, Ysgol Garndolbenmaen; 2. Owen Jones, Ysgol Garndolbenmaen; 3. Llifon Butler, Ysgol Beddgelert

Blwyddyn 5 – 6: 1. Lisa Llewelyn Williams; 2. Ruby Hall; 3. Aron Roberts (oll o Ysgol Garndolbenmaen)

Blwyddyn 7 – 9: 1. Ifan Alun Midwood; 2. Cadi Fflur Midwood